

# Newidiadau Gwasanaeth Dros Dro Papur Trafod - Digwyddiadau galw heibio

---

## Crynodeb Gweithredol

Mae gwasanaethau iechyd ym Mhowys yn wynebu heriau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ansawdd, gweithlu a chynaliadwyedd hirdymor.

Yn ystod 2024 fe wnaethom gyflwyno nifer o newidiadau dros dro i'n helpu i ymateb i'r heriau hyn gan hefyd gynnal gofal hanfodol i gleifion.

- Newid i'r oriau agor (8am i 8pm) ar gyfer yr Unedau Mân Anafiadau (UMAAu) yn Aberhonddu a Llandrindod.
- Gweithredu dwy Uned Barod i Fynd Adref yn Llanidloes a Bronllys mewn cyfuniad ag adsefydlu cleifion mewnol cryfach yn Aberhonddu a'r Drenewydd.

Fe wnaethom adolygu'r newidiadau dros dro ym mis Gorffennaf 2025. Roedd y newidiadau dros dro yn darparu manteision i ofal cleifion, ond rydym yn cydnabod cryfder teimlad y cyhoedd am wasanaethau ysbytai cymunedol lleol.

Pan wnaethom adolygu'r newidiadau dros dro ym mis Gorffennaf 2025, roeddem wedi cynllunio cyfnod o ymgynghoriad ffurfiol o Hydref 2025 yn edrych ar yr holl wasanaethau cymunedol iechyd corfforol a meddyliol i oedolion a ddarparwn ledled y sir. Byddai hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau am y newidiadau dros dro.


Mae'r rhain yn faterion cymhleth, ac nid ydym am frysio'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud. Rydym nawr yn disgwyl i'r ymgynghoriad ffurfiol gael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

Yn y cyfamser, bydd y newidiadau dros dro yn parhau i gael eu hadolygu. Bydd y broses adolygu hon yn edrych ar ansawdd, diogelwch, canlyniadau a phrofiad cleifion. Bydd hefyd yn gwrando ar y cyhoedd a rhanddeiliaid lleol.

Mae'r papur trafod hwn yn rhan o'r adolygiad hwnnw. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau dros dro i'r gwasanaeth a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Rhagfyr 2024 ac yn gofyn am eich barn. Mae:

- yn esbonio pam y cynigiwyd y newidiadau dros dro,
- yn crynhoi'r ymgysylltiad a gynhaliwyd yn ystod Haf 2024 a'r hyn a glywsom,
- yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd ym mis Hydref 2024 a gweithredu'r newidiadau dros dro,
- yn rhannu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud i adolygu a gwerthuso'r newidiadau dros dro, ac
- yn gofyn am eich barn erbyn 15 Chwefror 2026.

Rydym yn eich gwahodd i ddarllen y Papur Trafod hwn a'r dogfennau ategol gan gynnwys adroddiadau'r Bwrdd a phosteri adborth a rhannu eich barn heddiw.



Neu drwy gwblhau ein harolwg erbyn

**Dydd Sul 15 Chwefror 2026.**

Mae'r arolwg ar gael ar ein gwefan Dweud eich Dweud.

Sganiwch y cod QR (chwith) neu ewch i:

[www.dweudeichdweudpowys.cymru/ndgg2025](http://www.dweudeichdweudpowys.cymru/ndgg2025)

Bydd eich barn yn cyfrannu at adolygiad pellach o'r newidiadau dros dro, a fydd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2026.

Diolch am rannu eich barn ar y newidiadau gwasanaeth dros dro hyn.

## Eich Digwyddiadau Gwasanaethau Iechyd Galw Heibio Cymunedol

Gallwch hefyd rannu eich barn yn bersonol drwy fynychu un o'n digwyddiadau galw heibio cymunedol sy'n cael eu cynnal ledled y sir rhwng 3pm a 6pm yn y lleoliadau a'r trefi canlynol:

- Dydd Mercher 26 Tachwedd yn Neuadd y Dref yn Aberhonddu
- Dydd Gwener 28 Tachwedd yn y Strand yn Llanfair-ym-Muallt
- Dydd Mawrth 2 Rhagfyr yn Hafan yr Afon yn y Drenewydd
- Dydd Iau 4 Rhagfyr yn Neuadd Les y Glowyr yn Ystradgynlais
- Dydd Mawrth 9 Rhagfyr yn y Gyfnewidfa Ŷd yn y Trallwng
- Dydd Mercher 10 Rhagfyr yn The Comm yn Nhref-y-clawdd
- Dydd Mawrth 6 Ionawr yn y Sefydliad yn Llanfair Caereinion
- Dydd Iau 8 Ionawr yn Y Plas ym Machynlleth
- Dydd Iau 15 Ionawr yn y Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol yn Llanfyllin
- Dydd Mercher 22 Ionawr yng ngwesty'r Swan at Hay yn y Gelli Gandryll a Thalgarth
- Dydd Mawrth 27 Ionawr yn y Ganolfan Gymunedol yn Llanidloes
- Dydd Mawrth 3 Chwefror yn y Pafiliwn yn Llandrindod
- Dydd Iau 12 Chwefror yn Neuadd Clarence yng Nghrucywel

### 'Eich Gwasanaethau Iechyd'

Galwch heibio rhwng 3yp-6yp

| Dyddiad        | Ardal               | Lleoliad   |
|----------------|---------------------|--|
| 26ain Tachwedd | Aberhonddu          | Yn Neuadd y Dref Aberhonddu, LD3 7AL                             |
| 28ain Tachwedd | Llanfair-ym-muallt  | Yn Neuadd y Strand, LD2 3AA                                      |
| 2il Rhagfyr    | Y Drenewydd         | Hafan yr Afon, SY16 2NH  |
| 4ydd Rhagfyr   | Ystradgynlais       | Neuadd Les y Glowyr, SA9 1JJ                                     |
| 9fed Rhagfyr   | Y Trallwng          | The Corn Exchange, SY21 7JQ                                      |
| 10fed Rhagfyr  | Tref-y-clawdd       | Y Comm - Hwb Cymunedol, LD7 1DR                                  |
| 6ed Ionawr     | Llanfair Caereinion | Yr Institiwt, SY21 0RY   |
| 8fed Ionawr    | Machynlleth         | Y Plas, SY20 8ER   |
| 15fed Ionawr   | Llanfyllin          | Neuadd Ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid a Chymunedol, SY22 5DB |
| 22ain Ionawr   | Y Gelli Gandryll    | Gwesty'r Swan at Hay, HR3 5DQ                                    |
| 27ain Ionawr   | Llanidloes          | Canolfan Gymunedol Llanidloes, SY18 6EY                          |
| 3ydd Chwefror  | Llandrindod         | Pafiliwn Canolbarth Cymru, LD1 5EY                               |
| 12fed Chwefror | Crucywel            | Neuadd Clarence, NP8 1BN   |



- Dewch i roi eich barn ar ddyfodol gwasanaethau iechyd
- Casglwch wybodaeth sy'n cefnogi eich iechyd a'ch lles



 [powys.engagement@wales.nhs.uk](mailto:powys.engagement@wales.nhs.uk)

## Y Daith Hyd Yma

- **Gwanwyn 2024:** Cyflwynwyd cynigion ar gyfer newidiadau dros dro i wardiau cleifion mewnol ac unedau mân anafiadau
- **Haf 2024:** Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu rhwng 29 Gorffennaf a 8 Medi 2024
- **Hydref 2024:** Ystyriwyd yr adborth o ymgysylltu mewn cyfarfod cyhoeddus o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 10 Hydref 2024. Ar ôl ystyried cydbwysedd buddion a risgiau yn ofalus, cytunodd y Bwrdd i weithredu'r newidiadau dros dro gyda gwerthusiad chwe mis ar waith.
- **Gorffennaf 2025:** Adolygwyd canfyddiadau'r gwerthusiad chwe mis mewn cyfarfod cyhoeddus o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 30 Gorffennaf 2025. Nododd y Bwrdd y manteision a oedd yn cael eu cyflawni drwy'r newidiadau dros dro a chytunodd y dylent aros yn eu lle, gyda phenderfyniadau ar ffurf barhaol y gwasanaethau i'w gwneud drwy'r rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd. Bryd hynny, roedd disgwyl y byddai ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion Gwella Gyda'n Gilydd ar gyfer gwasanaethau cymunedol iechyd corfforol a meddyliol oedolion yn cael ei gynnal o Hydref 2025.
- **Hydref 2025:** Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno bod angen rhagor o waith ar y rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd ac mae disgwyl ymgynghoriad ffurfiol y flwyddyn nesaf. Mae angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar ddyfodol wardiau unigol neu wasanaethau gofal brys fel rhan o'r "darlun ehangach" sy'n cael ei ddatblygu trwy raglen Gwella Gyda'n Gilydd yn hytrach nag fel cynigion annibynnol. Mae cynllunio ar y gweill ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn ystod 2026/27. Ochr yn ochr â'r gwaith hanfodol hwn rydym yn cadw'r newidiadau gwasanaeth dros dro dan adolygiad. Rydym yn gofyn am adborth oddi wrth gleifion, staff, cymunedau a rhanddeiliaid rhwng Tachwedd 2025 a Chwefror 2026. Bydd eich adborth yn cyfrannu at yr adolygiad nesaf o'r Newidiadau Gwasanaeth Dros Dro ym mis Mawrth 2026.

## Cyd-destun a Chefndir

Mae gwasanaethau iechyd ym Mhowys yn wynebu heriau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ansawdd, gweithlu a chynaliadwyedd hirdymor.

### *Ein Hunedau Mân Anafiadau*

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ein Hunedau Mân Anafiadau yn aml wedi wynebu problemau staffio, gan arwain at gau munud olaf. Roedd darparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy yn heriol iawn dros nos oherwydd y nifer isel iawn o bobl sydd angen y gwasanaethau hyn rhwng 8pm ac 8am. Un o risgiau allweddol oedd dadsgilio nyrsys arbenigol oherwydd y nifer isel iawn o gleifion.

Gellir gweld bron pob anaf bach dros nos sy'n addas i'w trin yn ein Hunedau Anafiadau Bach yn ddiogel naill ai pan fydd yr uned yn agor nesaf neu bydd angen eu gweld yn gyflymach gan wasanaeth amgen fel Adran Damweiniau ac Achosion Brys ysbyty (er enghraifft, nid yw ein Hunedau Anafiadau Bach yn cynnig gwasanaethau pelydr-x dros nos).

### *Ein safleoedd ysbytai a'n gwelyau cleifion mewnol*

Pan wnaethom adolygu ein gwelyau ysbyty yn 2024, gwelsom fod bron i hanner y cleifion yn addas i'w rhyddhau ond yn aros am becynnau gofal ymlaen, addasiadau cartref neu asesiadau.

Fe wnaethom nodi y gallem ddarparu gofal gwell, mwy person-ganolog i'n cleifion trwy ddynodi rhai o'n wardiau ysbyty fel "Unedau Barod i Fynd Adref" a rhai fel "Unedau Adsefydlu".

Byddai "Unedau Barod i Fynd Adref" yn ein galluogi i weithio gyda chleifion nad oedd angen gofal ysbyty cymunedol mwyach, gan eu cefnogi i wella eu hannibyniaeth gan ganiatáu iddynt symud o gwmpas mwy, codi, gwisgo, cymdeithasu, a mynd ar deithiau allan gydag aelodau o'r teulu – byddai pob un ohonynt yn cefnogi rhyddhau adref yn gyflymach.

Yn y cyfamser, gallai'r cleifion hynny sydd angen adsefydlu mwy dwys mewn lleoliad cymunedol gael eu cefnogi'n well mewn "Uned Adsefydlu" arbenigol gyda'r holl staff perthnasol ar y safle yn cynnig ffisiotherapi a gofal i alluogi'r person hwnnw i gyrraedd lefelau diogel o annibyniaeth a pharatoi ar gyfer rhyddhau adref. Byddai hyn yn adeiladu ar y trefniadau sydd eisoes ar waith ym Mhowys ar gyfer cleifion sydd angen adsefydlu strôc cleifion mewnol.

Fe wnaethom argymhell y newidiadau hyn er mwyn:

- sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi'n well mewn amgylchedd a fyddai'n arwain at ryddhau yn gyflymach a dychwelyd i fyw'n annibynnol
- lleihau "dadgyflyru"
- cynnig gwasanaeth mwy dibynadwy
- lleihau pwysau staffio,
- a chreu gwasanaeth mwy dibynadwy i'n cymunedau.

Nodwch: Dadgyflyru yw lle mae person yn colli tŷn cyhyrau yn gyflym dros gyfnod byr o amser oherwydd eu bod yn llai symudol nag y maent fel arfer. Mae hyn yn aml yn wir pan fydd rhywun yn yr ysbyty os ydynt yn treulio cyfnodau estynedig o amser yn y gwely wrth dderbyn gofal a thriniaeth.

## **Gwrando ar eich barn yn Haf 2024**

Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu â'r cynigion hyn rhwng 29 Gorffennaf a 8 Medi 2024.

Fe wnaethom gyhoeddi Papur Materion a oedd yn esbonio pam fod y bwrdd iechyd yn cynnig y newidiadau dros dro. Ategwyd hyn gan wybodaeth ychwanegol mewn dogfen "Atebion i'ch Cwestiynau", ac arolwg i gasglu barn.

Casglwyd adborth hefyd trwy weminarau ar-lein, gwefan y bwrdd iechyd, safleoedd cyfryngau cymdeithasol, posteri a osodwyd mewn llyfrgelloedd a lleoliadau lleol eraill, gwybodaeth a rennir gan e-gylchlythyr am ddim y bwrdd iechyd, a phresenoldeb cynrychiolwyr y bwrdd iechyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Yn ogystal â'r adborth, clywsom trwy ddigwyddiadau a chyfarfodydd, derbyniwyd bron i 170 o ymatebion trwy ein harolwg, llythyrau ac e-byst yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

## **Adborth ar y cynigion ar gyfer Unedau Mân Anafiadau**

Yn ystod yr ymgysylltiad clywsom lawer o gamddealltwriaeth am y cyflyrau y gellir eu trin mewn Uned Mân Anafiadau ym Mhowys dros nos. Nod ein dogfen ymgysylltu oedd atgyfnerthu bod yr unedau hyn ar gyfer mân anafiadau yn unig, ac nad yw gwasanaethau pelydr-x yn cael eu darparu dros nos. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn rhannu pryderon am driniaeth feddygol o salwch (nad ydynt yn cael eu trin mewn UMAau) neu ar gyfer anafiadau mwy difrifol (sydd angen

triniaeth mewn prif adran Damweiniau ac Achosion Brys neu gan barafeddygon ambiwlans).

Clywsom bryderon am yr effaith y byddai lleihau'r oriau dros nos yn ei chael ar gleifion lleol a chymunedau sydd angen triniaeth ar gyfer mân anafiadau dros nos. Roedd sylwadau ynglŷn â phellteroedd teithio i ysbytai eraill, amseroedd aros ambiwlans, ac amseroedd aros mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys os oes angen sylw meddygol ar berson. Rhannodd pobl bryderon am y gallu i deithio i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys y tu allan i'r sir dros nos, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth.

Clywsom gefnogaeth i'r cynnig hefyd. Roedd cydnabyddiaeth bod gan yr unedau lefelau isel iawn o ddefnydd dros nos, ac mewn llawer o achosion gallai'r amodau sy'n cyflwyno dros nos naill ai aros yn ddiogel nes i'r UMA agor nesaf neu y byddai angen eu trin mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys ysbyty y tu allan i'r sir. Roedd yr ymatebion yn cydnabod bod staff yn cael eu tanddefnyddio a'u bod mewn perygl o gael eu dadsgilio, bod gwasanaethau fel 111 a 999 ar gael 24 awr y dydd i ddarparu cyngor ac arweiniad a chyfeirio pobl at driniaeth briodol, ac nad oedd gwasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i Oriau ShropDoc wedi'u heffeithio.

Clywsom adborth gwerthfawr gan staff gan gynnwys newidiadau i'r cymysgedd sgiliau a'r model staffio ar draws y sir.

## **Adborth ar y cynigion ar gyfer Unedau Barod i Fynd Adref**

Clywsom bryderon gan bobl yn ardaloedd Llanidloes a Bronllys am gynigion i wneud newidiadau dros dro i rôl Ward Graham Davies yn Llanidloes a Ward Llywelyn ym Mronllys. Roedd hyn yn cynnwys:

- teithio ychwanegol i ymweld â chleifion ag anghenion clinigol na ellid eu diwallu mewn Uned Barod i Fynd Adref,
- gofal i gleifion ar ddiwedd oes a'r effaith ar unedau gofal lliniarol a ariennir drwy godi arian cyhoeddus,
- effaith ar rôl y ward yn y dyfodol, gan gynnwys a all y newidiadau ddod yn barhaol,
- a all cleifion brofi trosglwyddiadau lluosog rhwng ysbytai a'r effaith y gallai hyn ei chael,
- effaith ar staffio a sgiliau gan gynnwys cydweithio â phractisau meddygon teulu i leihau'r angen am dderbyniad aciwt i'r ysbyty.

Clywsom hefyd gefnogaeth i'r cynigion gan gynnwys:

- darparu amgylchedd sy'n lleihau dadgyflyru gyda ffocws ar gefnogi pobl sy'n barod i fynd adref,
- lleihau oedi yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth y tu allan i'r sir a dod â chleifion yn ôl i Bowys yn gyflymach,
- cefnogi cleifion i ddychwelyd adref yn gyflymach gan y gall timau nyrsio a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd mewn unedau Barod i Fynd Adref i ddatblygu pecyn o ofal a chymorth.

Clywsom adborth gwerthfawr gan staff gan gynnwys effaith gyffredinol ar y model staffio a'r cymysgedd sgiliau, a chefnogaeth i gynnal sgiliau i'r staff hynny sy'n gweithio mewn Unedau Barod i Fynd Adref.

## Adborth ar y cynigion ar gyfer Unedau Adsefydlu

Roedd yr adborth am y cynigion i gryfhau rôl yr Unedau Adsefydlu yn gadarnhaol ar y cyfan – er nad oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol mai Aberhonddu a'r Drenewydd eisoes yw'r canolfannau dynodedig ar gyfer adsefydlu strôc, ac y byddai'r cynnig hwn yn adeiladu ar y trefniadau presennol.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod y manteision o ddod â chleifion ynghyd a oedd angen lefelau uwch o adsefydlu mewn lleoliad cymunedol, fel y gellir dod â'r lefelau cywir o staffio a sgiliau at ei gilydd i gyflymu eu hadferiad. Roedd rhai ymatebwyr eisiau i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu ym mhob ysbyty cymunedol.

## Crynodeb o Adborth Ymgysylltu Haf 2024

Fe wnaethom ddatblygu posteri adborth i grynhoi'r adborth a glywsom. Mae'r rhain ar gael yn **Atodiad A**.

## Ystyriaeth gan y Bwrdd ar 10 Hydref 2024

Ystyriwyd y cynigion ar gyfer newid gwasanaeth dros dro gan y Bwrdd mewn cyfarfod cyhoeddus ar 10 Hydref 2024.

Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r manteision posibl ar gyfer ansawdd a chanlyniadau gofal, yn enwedig wrth leihau oedi i gleifion mewn ysbytai cyffredinol dosbarth y tu allan i'r sir ac i leihau'r risg o ddadgyflyru. Cydnabyddir yr heriau ar

gyfer cynnal gweithlu a sgiliau priodol yn yr unedau mân anafiadau, y lefelau isel o bresenoldeb dros nos, a'r risgiau o ddadsgilio ein staff.

Cydnabu'r Bwrdd hefyd gryfder y teimladau a glywyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ond cytunodd, ar y cyfan, fod angen y newidiadau arfaethedig i gynnig y profiad a'r canlyniadau gorau i gleifion ac i fynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu.

Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau gwasanaeth dros dro canlynol:

- Newid i'r oriau agor (8am i 8pm) ar gyfer yr Unedau Mân Anafiadau (UMAAu) yn Aberhonddu a Llandrindod.
- Gweithredu dwy Uned Barod i Fynd Adref yn Llanidloes a Bronllys mewn cyfuniad ag adsefydlu cleifion mewnol cryfach yn Aberhonddu a'r Drenewydd.

Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai gwerthusiad ffurfiol o'r newidiadau hyn dros gyfnod o chwe mis, gydag argymhellion wedi'u diweddarau wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2025. Byddai hyn yn ystyried diogelwch cleifion, profiad cleifion, a chanlyniadau cleifion yn ogystal ag adborth gan gleifion, staff BIAP, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a chydweithwyr trydydd sector.

## **Gweithredu**

Yn dilyn penderfyniadau'r Bwrdd ar 10 Hydref 2024, gwnaed gwaith i weithredu'r newidiadau dros dro:

- Tachwedd 2024: Newidiadau dros dro i oriau agor yr Unedau Mân Anafiadau yn Aberhonddu a Llandrindod
- Rhagfyr 2024: Newidiadau dros dro i wardiau cleifion mewnol gan gynnwys sefydlu'r Unedau Barod i Fynd Adref ac Unedau Adsefydlu dros dro.

## **Gwerthusiad chwe mis ym mis Gorffennaf 2025**

Ar ôl gweithredu'r newidiadau hyn ym mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd cyfnod o werthuso o chwe mis. Cyflwynwyd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2025.

Roedd adroddiad mis Gorffennaf yn ystyried ystod eang o ddata sy'n ymwneud â diogelwch a phrofiad gwasanaethau, yn ogystal ag ad borth o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiad:

- Cafodd y newid i oriau agor UMA effeithiau cadarnhaol yn fras, gan gynnwys gwelliannau i ddibynadwyedd gwasanaeth, i ddiogelwch staff a chleifion ac i foddhad staff. Nid oes unrhyw gynnydd sylweddol mewn presenoldeb meddygon teulu wedi'u nodi; mae'r defnydd o staff banc wedi gostwng, ac mae costau staffio wedi gostwng gan 9%. Nid oes unrhyw gau heb ei gynllunio i'r gwasanaeth yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae defnydd staff wedi gwella.
- Yn yr un modd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer Unedau Barod i Fynd Adref ac Unedau Adsefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliant parhaus mewn effeithlonrwydd a llif, arwyddion cynnar o ganlyniadau gwell, llai o hyd aros, defnyddio staff yn fwy effeithlon ac effeithlonrwydd mewn costau staffio.

Roedd canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau â thrigolion sy'n aros yn yr unedau yn cynnwys:

- Gwell dibynadwyedd gwasanaeth a chanlyniadau cleifion
- Adborth cadarnhaol ar y gofal a dderbyniwyd, glendid y wardiau a'r arlwyo
- Adborth cadarnhaol ynglŷn â'r ffisiotherapi a gynigir
- Awydd am fwy o staff a sesiynau ffisiotherapi
- Llai o amser teithio i lawer o deuluoedd a gwell hyblygrwydd ymweld
- Diffyg gwybodaeth am ddiben yr Unedau Barod i Fynd Adref pan drosglwyddwyd preswlydd naill ai o ysbyty cyffredinol dosbarth neu ysbyty arall ym Mhowys

Mae detholiad bach o rai o'r adborth a roddir gan y rhai yn yr unedau yn dilyn.

*"Rwy'n synnu faint o gleifion sydd wedi dod trwy'r uned ac yn awr wedi mynd adref." (Uned Barod i Fynd Adref)*

*Rwyf wedi bod i sesiynau ymarfer corff a bingo a chwisiau. Fe wnes i eu mwynhau. Mae'n ei gwneud hi'n bleserus cael rhywbeth i'w wneud. Dros y Nadolig es i allan am dair noson gyda'r teulu." (Uned Barod i Fynd Adref)*

*"Mynd i'r gampfa fu'r gorau, yn ystod y dyddiau diwethaf rwy'n teimlo fy mod wedi troi cornel, yn gwneud y bariau llorweddol. Yr ail dro i mi geisio, rwy'n teimlo y gallaf ei wneud, mae'n rhoi hwb i chi." (Uned Adsefydlu)*

Derbyniwyd adborth hefyd yn annibynnol gan ymwelwyr â'r wardiau gan y cysylltwyr cymunedol (PAVO) a chynrychiolwyr o Llais.

Yn seiliedig ar y gwerthusiad hwn, cytunodd y Bwrdd y dylai'r newidiadau dros dro aros mewn lle am gyfnod dros dro pellach, gyda phenderfyniadau i'w gwneud trwy ymgysylltu parhaus ac ymgysylltu yn y dyfodol ar Raglen Gwella Gyda'n Gilydd y bwrdd iechyd.

## **Cadw'r Newidiadau Gwasanaeth Dros Dro dan adolygiad yn Hydref 2025**

Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad manwl o'r newidiadau gwasanaeth dros dro ym mis Gorffennaf 2025. Bryd hynny, roedd disgwyl y byddai ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion Gwella Gyda'n Gilydd ar gyfer gwasanaethau cymunedol iechyd corfforol a meddyliol oedolion yn cael ei gynnal o Hydref 2025.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno bod angen rhagor o waith ar y rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd, ac mae disgwyl ymgynghoriad ffurfiol y flwyddyn nesaf.

Mae angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar ddyfodol wardiau unigol (e.e. Aberhonddu, Bronllys, Llanidloes neu'r Drenewydd) neu wasanaethau gofal brys (e.e. oriau agor UMA) fel rhan o'r "darlun ehangach" sy'n cael ei ddatblygu drwy raglen Gwella Gyda'n Gilydd yn hytrach na fel cynigion annibynnol.

Mae cynllunio ar y gweill ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn ystod 2026/27. Ochr yn ochr â'r gwaith hanfodol hwn rydym yn cadw'r newidiadau gwasanaeth dros dro dan adolygiad.

Rydym yn gofyn am adborth gan gleifion, staff, cymunedau a rhanddeiliaid rhwng Tachwedd 2025 a Chwefror 2026. Mae hyn yn cynnwys cadw ansawdd a diogelwch y gwasanaethau hyn dan adolygiad, siarad â chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, siarad â staff, a chlywed gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach.

Bydd eich adborth yn cyfrannu at yr adolygiad nesaf o'r Newidiadau Gwasanaeth Dros Dro ym mis Mawrth 2026.

## Camau Nesaf a Gwybodaeth Gyswilt

Bydd eich barn yn cyfrannu at adroddiad diweddarau i'n Bwrdd ym mis Mawrth 2026.

Hoffem hefyd eich gwahodd a'ch annog i gofrestru ar gyfer ein cylchlythyrau e-bost rheolaidd. Byddwn yn sicrhau bod ein diweddariad Bwrdd ym mis Mawrth 2026 yn cael ei rannu â thanysgrifwyr y cylchlythyr a thrwy ein sianeli cyfathrebu ehangach gan gynnwys ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch gofrestru yma: <https://biap.gig.cymru/newyddion/cofrestrwch-in-bwletinaw-newyddion-e-bost-am-ddimns/>

Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael gan y Tîm Ymgysylltu a Chyfathrebu BIAP, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LY – [powys.engagement@wales.nhs.uk](mailto:powys.engagement@wales.nhs.uk)

## Gofyn eich barn ar newidiadau dros dro i wasanaethau iechyd ym Mhowys



### Unedau Mân Anafiadau yn Aberhonddu a Llandrindod Beth Rydyn Ni Wedi Clywed:



- **Canmoliaeth am wasanaethau** UMA gydag ymatebwr yn rhannu profiadau personol a theuluol o ofal a thriniaeth ardderchog.
- Pryderon am yr effaith **teithio a thrafnidiaeth** bosibl pe bai oriau'r UMA yn lleihau (er enghraifft os oes angen teithio i wasanaethau gofal brys mewn mannau eraill gan gynnwys adrannau damweiniau ac achosion brys y tu allan i'r sir).
- Pryderon y byddai'r cynigion yn cael effaith ar **adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau ambiwlans**.
- Bod **pobl yn teimlo'n dawel eu meddwl** bod yr UMA yno ar gyfer yr adegau pan fydd ei angen arnynt yn enwedig o ystyried nad yw gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn cael eu darparu yn y sir.
- Pryderon am **ofal a thriniaeth dros nos** i bobl a allai barhau i fynd i ysbyty cymunedol er bod yr UMA ar gau.
- Rhywfaint o **gamddealltwriaeth ynghylch rôl UMA** a'r gwasanaethau a ddarperir, er enghraifft mewn perthynas â thrin argyfyngau meddygol a chyflyrau sy'n peryglu aelodau'r corff.
- Galw am **fwy o farchnata/hyrwyddo**'r gwasanaethau a ddarperir (a'r rhai na ddarperir), gan gynnwys nad oedd rhai pobl yn ymwbyddol o'r UMA.
- Bod gan bobl falchder bro mewn ysbytai cymunedol lleol a phryderon y gallai **gwasanaethau ddirywio** neu gael eu hisraddio.
- Pryderon a oedd y cynigion hyn **dros dro neu'n barhaol**, gan gynnwys a allai hyn effeithio ar recriwtio a chadw staff clinigol a chynnal sgiliau.
- Rhywfaint o **gefnogaeth i'r cynigion** fel cam darbodus i fynd i'r afael â'r galw o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Sylwadau ynghylch **model staffio ar gyfer gwasanaethau UMA** sydd y tu allan i gwmpas yr ymgysylltiad hwn gan nad ydynt yn effeithio ar ble a sut mae pobl yn cyrchu gwasanaethau UMA.
- Nifer o **effeithiau cydraddoldeb a lles** bosibl mewn perthynas â Nodweddion Cydraddoldeb Gwarchoddedig a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rhai cynigion amgen neu gyflenwol, gan gynnwys cynnal oriau agor yr UMA a/neu eu cynyddu yn y safleoedd hyn a safleoedd eraill yn y sir, a bod Aberhonddu yn parhau ar agor tan hanner nos.
- Awgrymiadau ar gyfer **lliniaru effeithiau posibl unrhyw newidiadau**, er enghraifft trwy hyrwyddo a marchnata dewisiadau amgen i UMA.
- **Galw am gyfleusterau estynedig ym Mhowys** gan gynnwys darparu Gwasanaethau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, sylwadau am y ffordd y mae'r GIG yn cael ei ariannu'n lleol ac yn genedlaethol, a chwestiynau am gynaliadwyedd gwasanaethau y tu allan i gwmpas yr ymgysylltiad hwn, gan gynnwys mamolaeth a chleifion allanol.
- Sylwadau am y broses **ymgysylltu a gwneud penderfyniadau**, gan gynnwys ceisiadau i atal neu oedi ymgysylltu ar newidiadau arfaethedig.

### Beth sy'n digwydd nawr?

*Mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd, (10 Hydref) cymeradwyodd yr aelodau argymhelliaid i newid yr oriau agor dros dro ar gyfer Unedau Mân Anafiadau yn Aberhonddu a Llandrindod i Byb tan 8yh am gyfnod o chwe mis. Bydd y newidiadau ar waith erbyn mis Rhagfyr 2024. Bydd y bwrdd iechyd yn lansio ymgyrch farchnata cyn y newid yn oriau agor yr UMA, y disgwylir iddo ddechrau yn ystod mis Tachwedd. Ni fydd unrhyw newid i wasanaethau gofal brys eraill fel 111 a ShropDoc.*

**Dyweddodd Dr Carl Cooper, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:**  
*"Rydym yn ddiolchgar i'r llu o bobl, grwpiau a chymunedau sydd wedi cymryd rhan yn y broses ymgysylltu hon. Mae'r Bwrdd wedi rhoi ystyriaeth lawn a chydwybodol i'r holl adborth."*

**Dyweddodd Kate Wright, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol:**  
*"Bydd y newidiadau dros dro hyn yn caniatáu i'n Hunedau Mân Anafiadau ddarparu gwasanaeth mwy dibynadwy. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu clywsom lawer o gamddealltwriaeth am rôl Unedau Mân Anafiadau. Ni allwn bwysleisio'n ddigon cryf bod yr unedau hyn ar gyfer trin mân anafiadau yn unig. Nid ydynt ar gyfer anafiadau sy'n peryglu bywyd neu aelodau'r corff nac ar gyfer salwch difrifol. Mewn argyfwng, dylai pobl ffonio 999 neu fynd i adran ddamweiniau ac achosion brys. Gall ymweld ag UMA gyda chyflwr meddygol brys oedi mynediad at ofal sy'n achub bywydau."*

# Gofyn eich barn ar newidiadau dros dro i wasanaethau iechyd ym Mhowys



## Gwasanaethau cleifion mewnol Ysbytai Cymunedol Beth Rydyn Ni Wedi Clywed:



- **Canmoliaeth am wasanaethau cleifion mewnol ysbytai cymunedol** gyda sawl ymatebydd yn rhannu profiadau personol a theuluol o ofal a thriniaeth yn ysbytai cymunedol Powys.
- Pryderon am yr effaith bosibl ar **deithio a thrafnidiaeth**, yn enwedig i ofalwyr teuluol a gofalwyr di-dâl/gwirfoddol, os nad yw cleifion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn i'w hysbty mwyaf lleol ac y gallai hyn hefyd effeithio ar ofal cleifion ac adferiad os oes ganddynt lai o gyswllt gyda'u teulu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.
- Pryderon am **ddilyniant gofal**, gan gynnwys pe bai angen i gleifion symud i sawl ysbyty os yw eu cyflwr yn gwella neu'n dirywio.
- Pryderon am yr **effaith bosibl ar yr ystod o wasanaethau** sydd ar gael yn eu hysbty cymunedol lleol, gan gynnwys **gofal diwedd oes, derbyniadau uniongyrchol gan feddygon teulu**, a'r potensial i leihau neu atal derbyniadau aciwt i'r ysbyty.
- Ynglŷn â'r **balchder bro mewn ysbytai cymunedol lleol**, y ffordd yr oedd cyfleusterau wedi elwa o gyfranogiad y cyhoedd a chodi arian a phryderon y gallai gwasanaethau ddirywio neu gael eu hisraddio.
- Pryderon a fyddai'r model arfaethedig yn **mynd i'r afael â'r heriau** mewn perthynas ag aros estynedig yn yr ysbyty a **datgyflyru**, yn enwedig heb welliannau mewn gofal cymdeithasol.
- Pryderon a oedd y cynigion hyn **dros dro neu'n barhaol**, gan gynnwys a allai hyn effeithio ar recriwtio a chadw staff clinigol a chynnal eu sgiliau yn yr "Unedau Barod i Fynd Adref".
- **Amheuaeth** bod y cynigion wedi'u **gyrru'n ariannol** yn hytrach nag ymateb i heriau **ansawdd a diogelwch**, ond hefyd amheuaeth na allai'r cynigion sicrhau manteision ariannol.
- Nodwyd nifer o **effeithiau cydraddoldeb a lles** posibl mewn perthynas â Nodweddion Cydraddoldeb Gwarchoddedig a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cynigion amgen neu gyflenwol, gan gynnwys y dylai'r model gael ei dreialu ar un safle.
- Sylwadau am y broses **ymgysylltu a gwneud penderfyniadau**, gan gynnwys ceisiadau i atal neu oedi ymgysylltu ar newidiadau arfaethedig.

- **Cefnogaeth** i'r cynigion fel cam i fynd i'r afael â'r heriau i ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd yn y sir ond hefyd y byddai angen trafodaeth a dylunio pellach er mwyn cytuno ar olwg cynaliadwy parhaol ar wasanaethau.
- Awgrymiadau ar gyfer **lliniaru effeithiau posibl** unrhyw newidiadau, er enghraifft drwy ymwybyddiaeth o oriau ymweld hyblyg a hyrwyddo cymorth teithio a thrafnidiaeth.
- Galw am **gyfleusterau estynedig** ym Mhowys gan gynnwys darparu Gwasanaethau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, sylwadau am y ffordd y mae'r GIG yn cael ei ariannu'n lleol ac yn genedlaethol, a chwestiynau am gynaliadwyedd gwasanaethau y tu allan i gwmpas yr ymgysylltiad hwn, gan gynnwys mamolaeth a chleifion allanol.

## Beth sy'n digwydd nawr?

*Mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd, cymeradwyodd yr aelodau argymhelliad i newid y model clinigol dros dro ar gyfer gofal cleifion mewnol yn Aberhonddu, Bronllys, Llanidloes a'r Drenewydd am gyfnod o chwe mis. Bydd y newidiadau ar waith erbyn mis Rhagfyr 2024. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i bawb am eu barn a gafodd ystyriaeth gydwybodol. Bydd gofal diwedd oes yn parhau i gael ei ddarparu yn ysbytai Bronllys a Llanidloes, a bydd gofal camu-i-fyny yn parhau i fod ar gael ar gyfer derbyniadau gan feddygon teulu.*

### **Dywedodd Claire Roche, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrzio, Ansawdd, Iechyd Menywod ac Iechyd Teulu:**

*"Rydym yn hyderus y bydd y model dros dro hwn o ofal cleifion mewnol yn ein helpu ni sicrhau gwell canlyniadau a phrofiad i'n cleifion. Bydd Bronllys a Llanidloes yn cael eu dynodi'n unedau "Barod i Fynd Adref" ac yn darparu gofal a chymorth mwy penodol i bobl sy'n barod i ddychwelyd adref ond sy'n aros am becyn gofal yn y gymuned. Gallwn helpu pobl cynnal eu symudedd a'u helpu cadw'n actif. Yn yr un modd, gallwn sicrhau adferiad cyflymach i fwy o gleifion trwy gryfhau rôl wardiau yn Aberhonddu a'r Drenewydd ar gyfer darparu gofal adsefydlu cleifion mewnol arbenigol. Mae hyn yn adeiladu ar eu rôl bresennol fel ein canolfannau ar gyfer adsefydlu strôc."*

## CWESTIYNAU'R AROLWG

Ar ôl darllen trwy'r Papur Materion ac adroddiadau'r Bwrdd (os ydych am wneud hynny), rhowch eich barn ar y Newidiadau Gwasanaeth Dros Dro.

Ochr yn ochr â'r arolwg hwn rydym wedi bod yn mynd allan i ddal barn trwy ymweld â'r tair uned. Mae gennym ac rydym yn ceisio barn gan yr unigolion hynny a allai fod yn aros i weld nyrs mewn Uned Mân Anafiadau neu a allai fod yn aros yn un o'r unedau eraill. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd gan drigolion eraill nad ydynt efallai wedi defnyddio unrhyw un o'r unedau farn a hoffem glywed y safbwyntiau hynny.

### A) Unedau Mân Anafiadau

Rhowch unrhyw sylwadau yr hoffech eu rhannu gyda ni am y newidiadau dros dro i oriau agor yr Uned Mân Anafiadau yn Aberhonddu a Llandrindod (er enghraifft profiadau cadarnhaol neu negyddol o'r gwasanaeth)?

.....

.....

.....

.....

.....

### B) Unedau Barod i Fynd Adref

Defnyddiwch y gofod hwn i rannu eich barn a'ch sylwadau am yr Unedau Barod i Fynd Adref yn Llanidloes a Bronllys (er enghraifft profiadau cadarnhaol neu negyddol o'r gwasanaeth)?

.....

.....

.....

.....

### C) Unedau Adsefydlu

Defnyddiwch y gofod hwn i rannu eich barn am yr Unedau Adsefydlu yn y Drenewydd ac Aberhonddu (er enghraifft profiadau cadarnhaol neu negyddol o'r gwasanaeth)?

.....  
.....  
.....  
.....

## Cwestiynau Amdanoch Chi

Q1. Yn gyntaf, ydych chi'n ymateb fel hyn:

fel un o drigolion Powys (claf, aelod o'r teulu/gofalwra)

ar ran sefydliad sy'n cefnogi (cleifion/teulu/gofalwyr)

.....(enw'r sefydliad)

mewn capasiti proffesiynol/fel aelod o staff yn y bwrdd iechyd neu rywle arall-arall

Q2. Ym mha dref rydych chi'n byw .....

Q3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich hunaniaeth rhywedd orau?

Gwryaidd  Benywaidd  Gwell gen i beidio â dweud

Q4. Pa gategori oedran sy'n berthnasol i chi?

Dan 16 oed  16 – 24  25 – 34  35 – 44  45 – 54

55 – 64  65 – 74  75 – 84  85+

Q5. Oes gennych unrhyw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol?

Oes  Nac Oes  Gwell gen i beidio â dweud

Q6. Ydych chi'n ofalwr di-dâl?

Ydw Gofalwr Oedolyn 25+  Ydw Gofalwr Oedolyn Ifanc 14 - 25

Ydw Gofalwr Ifanc dan 16 oed  Nac ydw; Ddim yn siŵr  Nac Oes